



Teitl y cyfarfod: Panel Cyswllt Afon Dyfrdwy

**Dyddiad a
lleoliad y
cyfarfod:** 15 Hydref 2014 yn Sŵ Caer

Yn bresennol

Sector	Enw a sefydliad
Cyfoeth Naturiol Cymru	MOIRA REYNOLDS Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru	CERI JONES Rheolwr y Rhaglen Basnau Afonydd
Cyfoeth Naturiol Cymru	LYNDA BIGLAND Ymgynghorydd ynghylch y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr
Cyfoeth Naturiol Cymru	HELEN MILLBAND Uwch-swyddog Cynllunio'r Amgylchedd
Busnes a diwydiant	DENNIS PUGH Kronospan
Asiantaeth yr Amgylchedd	JO HOLDEN Swyddog Dalgylch
Corff anllywodraethol amgylcheddol (Cymru)	ADRIAN JONES Ymddiriedolaeth Natur Cymru
Pysgodfeydd	RICHARD LUCAS A KEN O'HARA Ymddiriedolaeth Afon Dyfrdwy
Awdurdodau lleol (Cymru)	ELIZABETH BARLOW Cyngor Sir Ddinbych
Cyfoeth Naturiol Cymru	DAVE JOHNSTON Ymgynghorydd ynghylch y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr
Cyfoeth Naturiol Cymru	RICHARD MAY (ar ran Mike Willis) Rheolwr y Rhaglen Safleoedd Rhanbarthol
Cwmnïau dŵr (Lloegr)	KATE SNOW United Utilities
Cwmnïau dŵr (Cymru)	EVE READ (ar ran Paul Henderson) Dŵr Cymru
Defnyddwyr dŵr	PAUL ROBERTS Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Cafwyd **ymddiheuriadau** gan Howard Stevens, Mike Willis, Jim Radcliffe, Kevin Owen, Paul Henderson a Paul Glading.

Crynodeb o'r agenda

- Ymgynghori ynghylch Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy, sydd wedi'i ddiweddarau
- Cynnydd o ran y cylch cyntaf, gwaith yn y dalgylch a gwaith cyfathrebu
- Edrych ymlaen

1. Croeso, cofnodion a champau gweithredu

Cyflwynodd Moira Reynolds ei hun fel Cadeirydd newydd Panel Cyswllt Afon Dyfrdwy, ac amlinellodd agenda'r dydd gan rannu gwybodaeth am iechyd a diogelwch.

Adolygodd y panel gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2014, a chytunodd eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

Roedd y camau gweithredu canlynol yn parhau ers y cyfarfod blaenorol:

- Cylch gorchwyl ac aelodaeth. Yr hyn oedd yn peri llawer o bryder oedd diffyg cynrychiolaeth o'r sector tiffeddianwyr a'r sector amaethyddiaeth yng nghyfarfodydd y panel. Cytunwyd bod angen cynnwys tiffeddianwyr, oherwydd hebddynt ni fyddai'n bosibl darparu atebion hirdymor ar gyfer y cyrff dŵr sy'n methu yn y dalgylch.

CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i adolygu bylchau presennol yn yr aelodaeth a nodi opsiynau ar gyfer llenwi'r bylchau hynny, yn enwedig o safbwynt tiffeddianwyr a'r Awdurdod Lleol. Bydd cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru, Rhys Roberts, yn ymuno â ni yn y cyfarfod nesaf.

- Gofynnodd Paul Henderson beth oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r ymgynghoriad ynghylch cyrff eraill y llywodraeth, megis y Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden.

CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i adrodd yn ôl ynghylch canlyniad yr ymgynghoriad ynghylch y Pwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden.

- Nododd Kate Snow fod angen eglurder ynghylch statws parthau diogelu yng Nghymru.

CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i siarad â James Dowling yn Llywodraeth Cymru.

2. Ymgynghori ynghylch Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy, sydd wedi'i ddiweddarau

Dechreuodd DJ y sesiwn drwy roi trosolwg o'r dogfennau ymgynghori, gan gynnwys y brif ddogfen, yr atodiad a'r crynodeb o ddalgylch Afon Dyfrdwy. Tynnwyd sylw at y cwestiynau

ymgyngori sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i ffiniau cyrff dŵr. Yn benodol, bu'r panel yn canolbwyntio ar newidiadau o ran cyrff dŵr arfordirol, ac a ddylai llynnoedd sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael eu cynnwys yn yr ail gylch. At ei gilydd, nid yw deddfwriaeth Ewropeaidd yn berthnasol i lynnoedd bach ac rydym yn ymgynghori ynghylch a ddylent gael eu dynodi'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ai peidio. Mewn achosion lle ceir gwared â chyrff dŵr, bydd hynny at ddiben adrodd i'r Undeb Ewropeaidd a bydd gwelliannau'n cael eu cynnwys o hyd yn rhan o'r amcanion cyffredinol ar gyfer y dalgylch. Sicrhaodd DJ y panel y byddai mesurau'n dal yn berthnasol mewn dyfroedd arfordirol.

Bu'r panel yn trafod y Senarios. Tynnodd y panel sylw at anghysondeb o ran y costau, gan ddefnyddio Senario B fel enghraifft o fuddsoddiad gan y diwydiant dŵr o gymharu ag Ardal Basnau Afonydd Gogledd-orllewin Lloegr.

Trafodwyd mesurau hefyd, yn enwedig pa fesurau sy'n arwain at ganlyniadau ar gyfer yr amgylchedd a beth rydym wedi'i ddysgu o'r cylch cyntaf. Yn ogystal, trafodwyd y modd y caiff camau gweithredu *Natura 2000* eu cyflawni.

CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i ddarparu manylion pellach am y pwyntiau hyn yng nghyfarfod y panel ym mis Mawrth.

Arsylwi Dyfroedd Cymru

Rhoddodd LB y newyddion diweddaraf i'r panel ynghylch Arsylwi Dyfroedd Cymru. Roedd y panel yn gefnogol iawn i'r adnodd hwn, a chynigiodd rai awgrymiadau cynnar ynghylch gwelliannau yn y dyfodol. Roedd y rheini'n cynnwys ychwanegu prosiectau arfaethedig ar y cyd â phrosiectau sy'n bodoli eisoes, data cydlynol ar gyfer dalgylchoedd trawsffiniol, parthau diogelu dŵr ar y mapiau, cyflawni camau gweithredu *Natura 2000* a threfniadau ariannu ar gyfer mesurau.

Cyfathrebu/hyrwyddo'r ymgynghoriad

Rhoddodd aelodau'r panel adborth ynghylch y materion y dylid canolbwyntio arnynt yn eu barn nhw yn ystod yr ymgynghoriad, a gwybodaeth ynghylch pwy all helpu a'r adnoddau cyfathrebu ychwanegol y mae eu hangen i gefnogi'r ymgynghoriad. Yn ogystal, darparodd y panel restr o ddigwyddiadau yn y dyfodol y gallwn eu defnyddio i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Cytunwyd hefyd y byddai pecyn cyfathrebu'n cael ei ddsbarthu i'r grŵp er mwyn helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad.

CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i ddsbarthu canlyniadau'r sesiwn gyfathrebu a chynnwys yr awgrymiadau hynny yng nghynllun cyfathrebu Cyfoeth Naturiol Cymru.

3. Cynnydd o ran y cylch cyntaf

Trafododd CJ y gwaith oedd yn mynd rhagddo gyda'r rhaglen gyfredol o ymchwiliadau a mesurau. Bydd angen adolygu'r rhaglen er mwyn dangos pa mor bell y mae'r gwaith hwn wedi mynd â ni yn ystod y cylch cyntaf, ac er mwyn helpu i lywio dulliau gweithredu'r ail gylch. Bydd yr adolygiad hwn yn rhan o'r Cynllun Rheoli Basn Afon sydd wedi'i ddiweddarau, a chaiff cynnydd mewn perthynas â'r gwaith hwn ei drafod yn fanylach yng nghyfarfod y panel ym mis Mawrth.

CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yng nghyfarfod y panel ym mis Mawrth.

Rhoddodd RL gyflwyniad ar waith partneriaeth Dalgylch Afon Dyfrdwy. Cynhaliwyd y digwyddiad 'Muddy Boots' ym mis Tachwedd. Cafwyd cefnogaeth dda i'r digwyddiadau ond mae angen o hyd i dirfeddianwyr gymryd mwy o ran. Mae Dŵr Cymru ac United Utilities yn cefnogi prosiect gyda'r grŵp. Mae mynediad i ddata a gwybodaeth yn dal yn broblem.

Cytunodd pob aelod o'r panel fod ymdrin â'r dalgylch gyda'r partneriaid wedi bod yn gam cadarnhaol, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod Richard Lucas a'r partneriaid wedi cyfrannu, ac y dylid cydnabod hynny. Mae Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn cydnabod y cyfraniad amhrisiadwy hwn yn llwyr.

Yn ogystal, darparodd RL y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect rhywogaethau estron goresgynnol Afon Dyfrdwy, lle mae gwirfoddolwyr wedi rhoi 1,000 o oriau o'u hamser.

4. Edrych ymlaen

Cafodd yr elfen 'edrych ymlaen' ei hystyried a'i diweddarau.

- Cysylltiadau ar draws Cymru a Lloegr ar gyfer safleoedd *Natura 2000* drwy'r Cynlluniau Gwella Blaenoriaethol a'r Cynlluniau Gwella Safleoedd.
- Grŵp llywio ynghylch llif – gwneud cynnydd gyda'r gwaith
- Digwyddiad Panel Cyswllt Cymru ddechrau'r flwyddyn newydd – 20 Ionawr yn Amwythig.

5. Unrhyw fater arall

- Mynediad i ddata – mae'n broblem barhaus a nodwyd yn y cyfarfod ac y mae angen rhoi sylw iddi.

CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf cyn cyfarfod nesaf y panel.

Cyfarfod nesaf – 18 Mawrth 2015 yn Sŵ Caer